**Llwybr Goleuadau'r Nadolig - Cwestiynau Cyffredin**

## Archebu a Pharcio

**Sut ydw i'n archebu lle ar gyfer y Llwybr Goleuadau?**
Does dim angen archebu lle ar gyfer y Llwybr Goleuadau. Mae'r llwybr yn rhad ac am ddim (bydd rhaid talu am barcio).
**Pryd mae'r Llwybr Goleuadau yn cael ei gynnal?**
Mae'r Llwybr Goleuadau yn agor ar 4 Rhagfyr hyd at 21 Rhagfyr, 5pm – 9pm.
**A alla i dalu am barcio ar y noson?**
Gallwch, ond rydyn ni'n eich cynghori i dalu am eich parcio ymlaen llaw gan y bydd hyn yn arbed amser ac unrhyw giwiau ar y noson. Gallwch dalu ymlaen llaw yma: https://www.parcgwledigpenbre.cymru/hawlen-parcio-flynyddol/
**Mae gen i Hawlen Barcio, oes angen i mi dalu mwy i barcio?**
Nac oes, rydych chi eisoes wedi talu am flwyddyn gyda'ch hawlen barcio.
**Ble bydd y cyfleusterau parcio?**
Ym Maes y Mynachod. Trowch i'r chwith ar ôl y rhwystr a byddwch chi'n gweld y tîm i'ch cyfeirio i le parcio.
**A fydd parcio i bobl anabl?**
Bydd, rhowch wybod i aelod o'r tîm pan fyddwch chi'n cyrraedd y maes parcio. Mae'r lleoedd parcio i bobl anabl wrth ochr y fynedfa i'r llwybr.
**A alla i gael ad-daliad am barcio ymlaen llaw os nad ydw i'n dod?**
Na allwch, ni allwn ad-dalu ffioedd parcio pobl os nad ydyn nhw'n dod.
**A fydd y Llwybr yn cael ei ganslo os yw'n bwrw glaw?**
Na fydd, ni fydd y digwyddiad yn cael ei ganslo ond rydyn ni'n eich cynghori i wisgo dillad addas ar gyfer y tywydd. Dim ond oherwydd tywydd garw fel gwyntoedd cryfion a niwl isel drwy'r llwybr y bydd y llwybr yn cael ei ganslo.

## Gweithgareddau a Siôn Corn

**A oes rhaid archebu i weld Siôn Corn?**
Oes, mae'n rhaid i chi archebu ymlaen llaw. Ni allwn addo y bydd amseroedd ar gael ar y noson heb archebu ymlaen llaw, er y gall amseroedd fod ar gael yn dibynnu ar y ciwiau ar y pryd: Gallwch archebu ymlaen llaw yma: https://www.pembreycountrypark.wales/whats-on/whats-on/father-christmas-visit-6-21-december/
**Ble bydd Siôn Corn**?
Bydd Siôn Corn yn ei gaban yn y coetir sydd tua hanner ffordd drwy'r Llwybr Goleuadau ger y caban Siocled Poeth.
**A ydych chi'n cynnal sesiwn synhwyraidd?**
Ydyn, rydyn ni wedi neilltuo 10 Rhagfyr ar gyfer y Noson Sesiwn Synhwyraidd a gallwch hefyd ymweld â Siôn Corn ar y noson honno drwy archebu yma: https://www.parcgwledigpenbre.cymru/be-symlaen/digwyddiadau/ymweliad-sion-corn-syn-gyfeillgar-ir-synhwyrau-9-a-16-rhagfyr/
**Pa mor hir yw'r sesiwn tiwbio?**
Mae'r sesiwn tiwbio yn para 30 munud ac mae ar gyfer plant 6 oed a throsodd.
**Beth yw'r terfyn oedran ar gyfer y toboganau?**
Yr isafswm oedran yw 3 oed a rhaid i bob plentyn 3 - 8 oed fod yng nghwmni oedolyn ar y toboganau. Gallwch archebu tobogan ar ôl iddi dywyllu rhwng 4pm a 6pm. Ar ôl yr amser hwn bydd rhaid talu a chiwio.
**A oes Ffair Grefftau eleni?**
Nid ydym yn cynnal y penwythnos Ffair Nadolig Draddodiadol ond mae cabanau Nadolig amrywiol gyda chrefftau ac anrhegion bob nos yn ystod y llwybr goleuadau.
**A fydd ffair bleser?**
Bydd ffair bleser gyda reidiau addas i blant iau a hŷn.
**A alla i gael ad-daliad am weithgaredd os na alla i ddod mwyach?**
Na allwch, ni fydd ad-daliad yn cael ei roi am y gweithgareddau.
**Beth os yw'r digwyddiad yn cael ei ganslo oherwydd tywydd garw - beth sy'n digwydd i'm harchebion?**
Byddwn yn ceisio trefnu noson arall i chi ond bydd amseroedd cyfyngedig gan rai pethau fel tiwbio, bydd parcio a Siôn Corn yn cael eu trefnu ar ddiwrnod gwahanol. Os na allwn drefnu noson arall, wrth gwrs cewch eich ad-dalu.

## Y llwybr

**Pa mor hir yw'r llwybr?**
Mae pawb yn cerdded ac yn mwynhau'r llwybr ar gyflymder gwahanol. Bydd y rhan fwyaf o deuluoedd yn cymryd tua 30-45 munud ac nid yw'n llwybr hir ond rydyn ni'n eich gwahodd i fwynhau'r holl arddangosiadau.
**A yw'r llwybr yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn a phramiau?**

Mae'r llwybr ychydig yn anwastad mewn rhannau ond mewn tywydd sych mae'n addas. Os cewch unrhyw broblemau, rhowch wybod i aelod o'r tîm a gallwn helpu.

**A alla i ddod â chi?**

Mae croeso i gŵn, ond rydyn ni'n mynnu eu bod yn cael eu cadw ar dennyn byr bob amser a bod yr holl faw cŵn yn cael ei godi.

## Bwyd, Diod ac Adloniant

**A fydd bwyd ar gael?**

Bydd bwyd ar gael drwy Arlwyo Awyr Agored a'r caban Siocled Poeth ar y llwybr.

**A fydd yna adloniant?**

Bob nos, bydd adloniant byw ym mhabell y digwyddiad.

**Oes modd i mi dalu â cherdyn?**

Byddwn yn derbyn arian parod neu gerdyn, ond yng nghanol y coed gall y signal ar gyfer y cerdyn fod yn anoddach.

Dewch i fwynhau'r llwybr goleuadau, mae'r tîm yn gweithio'n galed i greu a gwneud y propiau i chi eu mwynhau. Gofynnwn i chi gael gwared ar eich gwastraff a'ch bod yn parchu eich gilydd a'r tîm.

Nadolig Llawen.